Health and Care
Research Wales
Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

# Defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal ym mlwyddyn olaf bywyd cyn marwolaeth nad oedd yn sydyn yng Nghymru, 2014-2023, yn ôl cofrestrau gofal lliniarol: astudiaeth garfan ôl-weithredol sy'n seiliedig ar y boblogaeth

Crynodeb Gweithredol

Hydref 2025

## Cefndir

Wrth i'r galw am ofal lliniarol a diwedd oes yng Nghymru gynyddu oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, mae angen i wasanaethau iechyd a gofal addasu er mwyn sicrhau bod gofal a dulliau rheoli'n effeithlon ac yn briodol.

Mae darparu gwasanaethau iechyd a gofal ar ddiwedd oes yn gymhleth. Ein nod oedd mesur y defnydd o wasanaethau iechyd a gofal ym mlwyddyn olaf bywyd cyn marwolaeth nad oedd yn sydyn, a hynny'n ôl cofrestrau gofal lliniarol.

Cafodd yr astudiaeth hon ei datblygu ar y cyd â'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, a bydd yn cyfrannu at y gwaith o lywio'r cyfeiriad strategol yn y dyfodol a chynlluniau cenedlaethol ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes yng Nghymru.

## Dulliau

Mae'r astudiaeth hon yn ceisio deall patrymau newid mewn lleoliadau iechyd a gofal gan ddefnyddio data ar raddfa'r boblogaeth o Fanc Data SAIL, gan ganolbwyntio ar unigolion na fu farw'n sydyn ym mlwyddyn olaf eu bywyd.

Yn rhan o'r astudiaeth hon, rydyn ni'n asesu sut mae unigolion yn symud rhwng lleoliadau iechyd a gofal gwahanol. Rydyn ni hefyd yn ystyried pa fath o bobl sy'n fwy neu'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.

## Canlyniadau

Dangosodd yr adolygiad hwn o ddata ar boblogaeth Cymru fod unigolion wedi treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gartref ym mlwyddyn olaf eu bywyd a bod y galw am ofal brys wedi cynyddu'n gyflym tua diwedd eu hoes.

Roedd pobl a oedd yn **byw gartref** mewn ardaloedd trefol wedi defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yn fwy ym mlwyddyn olaf eu bywyd na phobl mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, roedd y rhai a oedd yn byw gartref ac ar gofrestr gofal lliniarol wedi defnyddio gwasanaethau'n fwy ym mlwyddyn olaf eu bywyd na'r rhai **nad oedden nhw** ar gofrestr gofal lliniarol (cyn marwolaeth nad oedd yn sydyn).

Fodd bynnag, yn achos unigolion mewn cartrefi gofal, roedd y rhai ar gofrestr gofal lliniarol wedi defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal **yn llai** ym mlwyddyn olaf eu bywyd na'r rhai **nad oedden nhw** ar gofrestr.

Ar y cyfan, cafodd unigolion ar gofrestr gofal lliniarol eu rhyddhau o'r ysbyty'n gynt.

Roedd y grwpiau demograffig canlynol wedi'u **tangynrychioli** ar gofrestrau gofal lliniarol:

- dynion
- pobl o ardaloedd trefol
- pobl a oedd yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig
- pobl a oedd yn byw ar eu pen eu hunain

Dylai dulliau wedi'u targedu i nodi'n effeithiol yr unigolion hynny y mae angen gofal lliniarol arnyn nhw, a rhoi cymorth ychwanegol iddyn nhw **gartref** lle bo'n briodol, gael eu blaenoriaethu. Bydd gwneud hyn yn helpu i wella dulliau o reoli'r system a gofal priodol i'r rhai sy'n agosáu at ddiwedd eu bywyd.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Population Data Science
Gwyddor Data Poblogaeth
Swansea University Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

SAIL DATABANK